**GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL**
**Ionawr 2017**
**ATODIAD 1**

## Cylch Gorchwyl Drafft

**Rôl a Phwrpas:**

- Prif rôl y Grŵp Cynllunio Strategol yw arwain yr adolygiad o'r CDLl a darparu'r CDLl newydd trwy lywio yn Gorfforaethol a rhoi adborth i gefnogi ei ddatblygiad.
- Bydd y Grŵp yn gefnogwr i'r CDLl newydd ar gyfer ei ddatblygu ac ar ôl ei fabwysiadu.
- Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol hefyd yn goruchwylio'r gwaith o reoli darpariaeth y CDLl newydd ac yn diwygio'r gyfres o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio sydd eu hangen i sicrhau bod polisïau yn cael eu gweithredu a bod budd cymunedol yn cael ei gyflawni.
- Swyddogaeth anweithredol sydd i'r Grŵp Cynllunio Strategol ond bydd yn adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio, Cabinet ac/neu'r Cyngor fel sy'n briodol. Bydd adroddiadau diweddaru rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen.
- Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol hefyd yn trafod ac yn adolygu cynigion cynllunio pwysig gyda goblygiadau corfforaethol a strategol ehangach
- Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob 2 fis.
- Fel arfer bydd y papurau yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Grŵp 1 wythnos cyn y cyfarfod
- Disgwylir i'r Aelodau adrodd yn ôl i'w grwpiau gwleidyddol a Grwpiau Ardal Aelodau, i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rannu. Bydd adroddiadau yn diweddaru ar y CDLl yn cael eu cynnwys ar Raglenni Cyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau pan fo angen.
- Bydd nodiadau cofnodion yn cael eu llunio ar gyfer bob cyfarfod Grŵp ac yn canolbwyntio ar y camau gweithredu i'w cymryd. Bydd nodiadau ac agenda ar gael i'r holl Gynghorwyr.

**Amserlen:**
- Bydd rhaglen waith manwl yn cael ei chytuno arni gyda'r Grŵp i sicrhau bod y CDLl newydd yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu o fewn yr amserlenni penodedig.
- Bydd y Grŵp Llywio yn goruchwylio paratoad yr Adroddiad Monitro

Blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref bob blwyddyn.

**Presenoldeb:**

- Er mwyn cynnal cysondeb disgwylir i holl aelodau'r Grŵp Llywio, neu eu cynrychiolwyr enwebedig, i fynychu'r holl gyfarfodydd.
- Cynhelir sesiynau cyfarwyddo rheolaidd i'r holl Aelodau, ar sail 6 mis ac felly bydd cyfleoedd am ymrwymiad gwleidyddol ehangach trwy Cabinet, Archwilio a Grwpiau Ardal Aelodau.
- Ni fydd modd i aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd.

**Cefnogaeth:**

- Darperir cefnogaeth weinyddol a thechnegol ar gyfer y grŵp drwy'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**Dosbarthu papurau:**

- I'w dosbarthu i'r holl Aelodau/ Tîm Gweithredol Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaeth

**Aelodaeth:**

- Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys 8 Aelod, i gynnwys yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLl, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ynghyd ag 1 aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau.
- Dylai pob Grŵp Ardal Aelodau hefyd enwebu dirprwy i fynychu yn absenoldeb eu cynrychiolydd.
- Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol perthnasol gyda chyfrifoldeb am y CDLl.

Hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fydd:

1. Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Economi a'r Parth Cyhoeddus
2. Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
3. Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai
4. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol

(neu eu cynrychiolwyr enwebedig) a swyddogion eraill fel bo angen